R21L

CAIS HWYR: DERBYN I DDOSBARTH DERBYN YSGOLION CYNRADD CYMUNEDOL CAERDYDD MEDI 2021

Defnyddiwch y ffurflen hon i ymgeisio am **Ysgolion Cynradd Awdurdod Lleol** ar gyfer plant a aned rhwng 1 Medi 2016 a 31 Awst 2017 YN UNIG

"Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar amser oedd" **dydd Llun 11 Ionawr 2021.**

CYN CWBLHAU Y FFURFLEN MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN Y NODIADAU AR DUDALEN 4.

MANYLION Y PLENTYN

CYFENW'R PLENTYN: _____ **DYDDIAD GENI:** _____

ENW(AU) CYNTAF: _____ **RHYW:** _____

CYFEIRIAD: _____

RHIF CYFEIRNOD Y DRETH GYNGOR ----------

☐ **Ticiwch os yw'ch plentyn yn un o enedigaeth luosog** (Sylwch fod rhaid cyflwyno cais ar wahân ar gyfer pob plentyn)

*Mae cyfeiriad yn golygu lle mae'r plentyn yn byw pan fyddwch yn ymgeisio. **Bydd gwiriadau cyfeiriad trylwyr yn cael eu cynnal**. Os yw'r plentyn, erbyn dechrau'r tymor, wedi symud o'r cyfeiriad a nodir ar y cais, bydd y lle'n cael ei dynnu nôl.

MANYLION Y PERSON SY'N CWBLHAU'R FFURFLEN HON

PERTHYNAS Â'R PLENTYN: _____

CYFENW: _____ **ENW(AU) CYNTAF:** _____

E-BOST: _____ **FFÔN:** _____

CYFEIRIAD: _____

☐ **Ticiwch os ydych yn aelod o'r Lluoedd Arfog neu Wasanaeth y Goron ac yn dychwelyd/symud i'r cyfeiriad hwn i gyflawni dyletswyddau. Y dyddiad symud yw** _____

EICH DEWIS O YSGOLION

Os ydych am wneud cais i Ysgol Ffydd, neu Ysgolion mewn Awdurdodau Lleol eraill, **PEIDIWCH** â'u cynnwys ar y ffurflen hon. Cysylltwch â'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol yn uniongyrchol yn lle hynny.

Dewis Cyntaf	
Ail Ddewis	
Trydydd Dewis	

Nid yw ymgeisio am yr un ysgol sawl gwaith yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y cewch le yn yr ysgol honno.

Fe'ch **cynghorir yn gryf** i ymgeisio am **3** ysgol wahanol, a dylai eich ysgol ddalgylch fod yn un ohonynt o leiaf.

Nid yw ymgeisio am un ysgol yn unig yn cynyddu'r tebygolrwydd o gael lle.

Os ydych wedi gwneud trefniadau eraill ar gyfer addysg gynradd eich plentyn nodwch isod (e.e. ysgolion annibynnol, ysgolion mewn awdurdodau lleol eraill ac ati). *At ddefnydd gweinyddol yn unig mae hyn ac ni fydd yn effeithio ar eich cais.*

R21L

SAIL Y CAIS

Rhaid ategu Tystiolaeth Ategol â'r ffurflen hon

Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi'r wybodaeth hon gyda'r cais hwn ac erbyn y dyddiad cau. Ni chaiff tystiolaeth a ddarperir ar ôl y dyddiad cau ei hystyried tan ar ôl y dyraniad cyntaf o leoedd.

	YDY	NAC YDY
MAE FY MHLENTYN YN DERBYN GOFAL / YN ARFER DERBYN GOFAL GAN AWDURDOD LLEOL A yw'r plentyn ar hyn o bryd neu yn y gorffennol wedi bod dan ofal Awdurdod Lleol? (e.e. yn derbyn gofal neu wedi ei faethu). Mae'r categori hwn hefyd yn berthnasol os yw'r plentyn wedi ei fabwysiadu oddi ar hynny neu wedi dod yn destun gorchymyn preswyl neu orchymyn gwarchod arbennig. **Rhaid i chi ddarparu llythyr neu e-bost gan Weithiwr Cymdeithasol presennol y plentyn neu fabwysiad/gwarchodaeth arbennig ayb. Gorchymyn**	☐	☐

	OES	NAC OES
MAE CYNLLUN DATBLYGU PERSONOL (CDP) NEU DDATGANIAD O ANGEN ADDYSGOL GAN FY MHLENTYN Rhaid i chi roi copi o'r ddogfen. Rhaid i'r ddogfen nodi manylion yr ysgol wedi'i henwi	☐	☐

RWY'N DYMUNO CAEL LLE YN_____ (enw'r ysgol),

OHERWYDD BOD RHESYMAU MEDDYGOL NEU GYMDEITHASOL CYMHELLOL GAN FY MHLENTYN

Rhaid i chi roi llythyr neu e-bost gyda'r ffurflen hon gan ymgynghorydd meddygol, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol tebyg. Rhaid iddo nodi rhesymau manwl dros dderbyn disgybl i ysgol benodol o dan y meini prawf hyn.

RWY'N DYMUNO CAEL LLE YN_____**neu** _____ (enw'r ysgol(ion)),

OHERWYDD MAE GAN FY MHLENTYN FRAWD NEU CHWAER YN MYNYCHU'R YSGOL YN YSTOD BLWYDDYN YSGOL 2021/22 (h.y. ym mlwyddyn 1-6 o fis Medi 2021 ymlaen).

Mae hyn yn golygu brodyr neu chwiorydd hŷn yn byw yn yr un cyfeiriad. Gall brodyr/chwiorydd gynnwys hanner/llys/mabwysiedig neu rai a faethwyd. Rhowch enwau a dyddiadau geni plant hŷn isod:

Enw	Dyddiad Geni	Mynychu Ysgol

RWY'N DYMUNO CAEL LLE YN_____ (enw'r ysgol),

OHERWYDD MAE GAN FY MHLENTYN FRAWD NEU CHWAER HŶN YN YR YSGOL, A PHAN DDECHREUON NHW DYNA OEDD YR YSGOL DDALGYLCH AR GYFER EIN CYFEIRIAD (NEU, DOEDD DIM ARDAL DDALGYLCH DDIFFINIEDIG), OND MAE WEDI NEWID BELLACH

R21L

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y wybodaeth yn y llawlyfr Derbyn i Ysgolion 2021/22 sydd ar gael ar Wefan y Cyngor.

Rwy'n cadarnhau fod cyfrifoldeb rhiant gennyf dros y plentyn dan sylw neu ei fod dan fy ngofalaeth. Rwy'n deall y dylwn hysbysu pob un arall sydd â dyletswydd rhiant am y plentyn ynghylch y cais hwn ac rwy'n deall y gall fod hawl ganddynt i weld y cais neu'r wybodaeth sydd ynddo, yn amodol ar ofynion diogelu data.

Rwy'n cadarnhau fod yr holl wybodaeth yn y cais hwn yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Rwy'n cydnabod fod hawl gan yr awdurdod derbyn i dynnu cynnig o le i fy mhlentyn yn ei ôl, os canfyddir fod y wybodaeth a roddais ar y ffurflen wedi ei roi yn wybyddus anwir.

Rwy'n cydnabod y bydd yn rhaid cyflwyno argymhellion ysgrifenedig gan ymarferwr meddygol, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol tebyg sy'n nodi rhesymau manwl dros dderbyn y plentyn i ysgol benodol o dan y maen prawf hwn.

Deallaf taw fy nghyfrifoldeb i yw rhoi gwybodaeth ategol erbyn y dyddiad cau a rhaid anfon unrhyw wybodaeth ychwanegol i ategu fy nghais i derbyniadaucynradd@caerdydd.gov.uk neu drwy un o Hybiau Cynghori'r Cyngor neu i'r Adran Derbyniadau Disgyblion, Ystafell 412, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW

Rwyf yn rhoi caniatâd i swyddogion Addysg a Dysgu Gydol Oes ddefnyddio data a gedwir gan Adran Dreth Cyngor Caerdydd, y Gofrestr Etholiadol, ysgolion presennol/blaenorol fy mhlentyn a sefydliadau allanol gan gynnwys asiantaethau gwirio credyd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth rwyf wedi ei datgan ar y cais hwn yn gywir. Bydd y defnydd ar y data hwn rhwng dyddiad fy nghais a dechrau'r tymor. Ryw'n deall y gallai fod angen tystiolaeth bellach gennyf. Bydd hyn yn ofynnol mewn achosion lle ceir mwy o geisiadau am le ysgol na nifer y lleoedd sydd ar gael er mwyn i geisiadau gael eu hystyried yn unol â'r meini prawf a ddefnyddir gan yr ysgol pan fo mwy o geisiadau na lleoedd.

Am wybodaeth am dystiolaeth a allai fod yn ofynnol gweler y Llyfryn Derbyn i Ysgolion 2021/22 ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion

LLOFNOD: _____ **DYDDIAD:** _____

☐ Ticiwch os nad ydych yn fodlon ar roi eich caniatâd i swyddogion Addysg a Dysgu Gydol Oes i gyrchu data fel a ddisgrifir uchod. Bydd eich cais yn cael ei dderbyn, ond os byddwch yn gwneud cais am ysgol sy'n llawn bydd gofyn i chi roi tystiolaeth i gefnogi'r wybodaeth a nodir ar eich cais.

Noder – caiff yr holl wybodaeth ei phrosesu yn unol â gofynion diogelu data. Mae hysbysiad preifatrwydd llawn ar gael ar wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw bryderon codwch y rhain gyda diogeludata@caerdydd.gov.uk

YDYCH CHI WEDI COFIO YMGEISIO AM 3 YSGOL WAHANOL?

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod Derbyn i Ysgolion Caerdydd yn cael eich cais.

Gallwch gyflwyno'r ffurflen hon drwy fynd â hi i Hyb y Cyngor, lle bydd rhywun yn sganio'r ffurflen ac yn ei hanfon at y tîm Derbyniadau ac yn rhoi derbynneb i chi. Neu, gallwch anfon y ffurflen drwy'r post i: Derbyniadau Ysgolion, Ystafell 412, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir Caerdydd, Glanfa'r Iwerydd, CF10 4UW neu e-bostiwch: derbyniadaucynradd@caerdydd.gov.uk

Does DIM man cyhoeddus lle gellid dychwelyd ffurflenni yn Neuadd y Sir.

Nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am ffurflenni gaiff eu colli yn y post neu eu dychwelyd oherwydd diffyg tâl postio. Os ydych yn defnyddio'r Post Brenhinol, fe'ch cynghorir i ddefnyddio'r gwasanaeth cludo arbennig i gael derbynneb.

R21L

NODIADAU CANLLAW

PWYSIG: Ni chewch gynnig lle mewn ysgol i'ch plentyn os na chyflwynwch gais.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau eich cais yn ofalus ac yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl (gan gynnwys tystiolaeth ddogfennol ategol) oherwydd bydd yn cael ei defnyddio i asesu lle dylai'ch plentyn fod ar y rhestr ar gyfer pob ysgol yr ydych wedi gwneud cais amdani.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn deall meini prawf derbyn eich ysgolion dewis. Bydd hyn yn eich galluogi i asesu pa flaenoriaeth a roddir i bob un o'ch dewisiadau. Bydd pob un o'ch 3 dewis yn cael ei asesu yn erbyn meini prawf derbyn cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer Ysgolion Cymunedol.

Dim ond **un** lle a gaiff ei gynnig i chi mewn ysgol gymunedol. Os gellir cynnig mwy nag un lle i'ch plentyn, dewisir yr ysgol rydych wedi'i rhestru fel eich blaenoriaeth gyntaf. Dyma pam bod y drefn y rhoddwch yr ysgolion ynddi mor bwysig a pham y dylech roi'r ysgolion yn nhrefn eich blaenoriaeth.

CYN DYCHWELYD Y FFURFLEN HON SICRHEWCH EICH BOD WEDI GWNEUD Y CANLYNOL:

- Darllenwch yr holl wybodaeth yn y llyfryn **"Gwybodaeth i Rieni 2021/22"** yn ofalus sydd ar gael ar ein gwefan ar www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolgynradd
- Darllenwch y meini prawf derbyn ar gyfer pob ysgol yr ydych yn ei nodi fel blaenoriaeth.
- Rhowch unrhyw dystiolaeth gefnogol sy'n ofynnol i asesu eich cais.

Eich cyfrifoldeb chi yw cyflwyno'r wybodaeth hon gyda'ch cais erbyn

DALGYLCHOEDD
Er bod byw yn y dalgylch yn gallu bod o fantais wrth wneud cais am le mewn ysgol, nid yw'n gwarantu lle yn yr ysgol honno. Gallwch ddod o hyd i'r ysgolion cymunedol yn nalgylch eich cyfeiriad yn www.caerdydd.gov.uk/mapiauarlein

Nid yw byw mewn ardal ddalgylch yn golygu y cewch gynnig lle mewn ysgol benodol.

CEISIADAU HWYR
Bydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn geisiadau hwyr, a byddant ond yn cael eu hystyried yn yr ail rownd brosesu neu rowndiau wedyn. Ar ôl y rownd dyraniadau cyntaf, bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ynghyd ag unrhyw un arall ar y rhestr aros. Y dyddiad cau ar gyfer yr ail rownd o ddyraniadau yw dydd Llun 30 Ebrill 2021, ar ôl y dyddiad hwn caiff ceisiadau eu hystyried yn fisol os daw lle ar gael.